OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 622

# Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015

## RHAN 10

Trosglwyddiadau

### PENNOD 4

Trosglwyddo cofnodion cyfrif pensiwn i reolwr cynllun arall

**Apêl ynghylch cofnodion ar dystysgrif**

**157.**—(1) Os nad yw aelod (P) yn fodlon ar y cofnodion sydd ar y dystysgrif, neu'r dystysgrif ddiwygiedig, wedi i P wneud cais o dan reoliad 156 (cais am gadarnhau manylion ar dystysgrif), caiff P, drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r rheolwr cynllun a ddarparodd y dystysgrif o fewn 28 i'r dyddiad hysbysu, ei gwneud yn ofynnol bod y rheolwr cynllun yn ymdrin â'r anghytundeb o dan drefniadau a gyflawnwyd gan y rheolwr cynllun yn unol â gofynion adran 50 o Ddeddf Pensiynau 1995(**1**) (datrys anghydfodau) a Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gweithdrefnau Mewnol i Ddatrys Anghydfodau, Diwygiadau Canlyniadol ac Amrywiol) 2008(**2**).

(2) Ym mharagraff (1), "y dyddiad hysbysu" ("*the notification date*") yw'r dyddiad a drinnir fel y dyddiad pan oedd P wedi cael gan y rheolwr cynllun naill ai gadarnhad o'r dystysgrif a ddarparwyd o dan reoliad 155 neu dystysgrif ddiwygiedig a ddarparwyd yn dilyn cais gan P o dan reoliad 156 (cais am gadarnhau manylion ar dystysgrif).

(**1**) 1995 p. 26. Amnewidiwyd adran 50 gan adran 273 o Ddeddf Pensiynau 2004 (p. 35). Diwygiwyd adran 273 o Ddeddf 2004, cyn iddi gael effaith, gan adran 16 o Ddeddf Pensiynau 2007 (p. 22).

(**2**) O.S. 2008/649.